Cygngor Sir Fynwy
Neuadd y Sir, Y Rhadyr,
Brunbuga, NP15 1GA
Monmouthshire County Council
County Hall, The Rhadyr, Usk,
NP15 1GA

Ffôn/Tel: 01633 644630
E-bost/Email:
planningpolicy@monmouthshire.gov.uk
Gwefan/Web: www.monmouthshire.gov.uk/cy
Ein Cyf/Our Ref: Archwiliad CDLlN
Eich Cyf/Your Ref:
Dyddiad/Date: 20fed Chwefror 2026

Annwyl Ms de-Courcey a Ms MacFarlane,

**Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) Sir Fynwy – Cwestiynau Cychwynnol**

Yn dilyn gohebiaeth flaenorol ynglŷn â chwestiynau cychwynnol yr Arolygwyr, paratowyd Papur Sefyllfa Ffosffad i fynd i'r afael â'r mater o effaith datblygiad arfaethedig yn y CDLlN ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) afonol mewn perthynas â gollyngiadau ffosfforws ac mae wedi'i atodi er eich gwybodaeth.

Mae'r Papur hwn yn nodi canfyddiadau'r camau cychwynnol o waith, gan gynnwys y cyfrifiadau cyllideb maetholion sy'n gysylltiedig â datblygiad arfaethedig yn y CDLlN, ynghyd ag ystyried cyfraniadau maetholion o ddatblygiadau amhreswyl, dyfarniad diweddar CG Fry & Sons Ltd v SSHCLG [2025] UKSC 35, ac opsiynau lliniaru lefel uchel a goblygiadau hyfywedd posibl.

Fel y nodir yn Rhaglen Waith y Cyngor ar y mater hwn, bydd angen rhagor o waith i fynd i'r afael yn llawn â'r materion a godwyd gan yr Arolygwyr, gan gynnwys mireinio atebion lliniaru posibl/priodol a chostau cysylltiedig, yn ogystal â diweddariadau i fframwaith polisi CDLlN, Papur Cefndir y Cynllun Cyflenwi Seilwaith, a'r ARhC (mewn ymgynghoriad â CNC). Fel y cytunwyd gyda'r Arolygwyr, bydd y gwaith hwn yn mynd rhagddo tan ddiwedd Ebrill 2026, ac ar ôl hynny bydd y Papur Sefyllfa yn cael ei ddiweddaru yn unol â hynny.

Rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw gwestiynau ar yr uchod a/neu ar y Papur Sefyllfa Ffosffad ynghlwm.

Yn gywir,

Andrew Jones
Pennaeth Cynllunio/Head of Planning